Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (MAN I'R GOGLEDD O LANBADARN FYNYDD, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 201-

MAE GWEINIDOGION CYMRU yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ymhen dim llai na 7 niwrnod i ddyddiad yr Hysbysiad hwn. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar Gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, mewn man i'r gogledd o Lanbadarn Fynydd yn Sir Powys.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad yn weithredol yn ystod oriau'r nos, sef 19:00 o'r gloch hyd 06:00 o'r gloch o 28 Medi 2015 hyd 1 Hydref 2015 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwahardd pob cerbyd, ac eithrio cerbydau'r gwasanaethau brys a cherbydau'r gwaith, rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd i'r gogledd o Lanbadarn Fynydd yn Sir Powys sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r U1581 sy'n arwain at yr annedd o'r enw Dolaucwmffrwd i gyfeiriad y gogledd hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r U1298, gyferbyn â'r fynedfa breifat i'r annedd o'r enw Upper Crochran.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de fydd mynd ar yr A483 tua'r gogledd i'r Drenewydd, tua'r gorllewin ar yr A489 i Gaersŵs, tua'r de-orllewin ar yr A470 i Langurig a thua'r de-ddwyrain i Raeadr Gwy, tua'r dwyrain ar yr A44 i Crossgates ac ailymuno â chefnffordd yr A483. I'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd.

Mae cyfyngiadau uchder parhaol yn weithredol ar bontydd rheilffordd yr A483 Ffordd Dolfor a'r A489 Nantoer gydag arwyddion ar gyfer llwybrau dargyfeirio ar waith.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld.

M D BURNELL
Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

THE A483 TRUNK ROAD (NORTH OF LLANBADARN FYNYDD, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 201-

THE WELSH MINISTERS propose, in not less than seven days from the date of this Notice, to make an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A483 Trunk Road north of Llanbadarn Fynydd in the County of Powys.

It is expected that the prohibition will operate during the night time hours of 19:00 hours until 06:00 hours from 28 September 2015 until 1 October 2015 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the proposed Order will be to prohibit all vehicles, with the exemption for emergency and works vehicles, from proceeding in the length of the trunk road north of Llanbadarn Fynydd in the County of Powys that extends from the centre-point of its junction with the U1581 leading to the dwelling known as Dolaucwmffrwd in a northerly direction to the centre-point of its junction with the U1298, opposite the private access to the dwelling known as Upper Crochran.

The alternative route for southbound vehicles will be via the A483 north to Newtown, west on the A489 to Caersws, south-west on the A470 to Llangurig and south-east to Rhayader, east on the A44 to Crossgates and re-join the A483 trunk road. Vice versa for northbound vehicles.

Permanent height restrictions are in place at the A483 Dolfor Road and A489 Nantoer railway bridges with signed diversion routes in place.

Although the proposed Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 12 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work be required due to unforeseen circumstances.

M D BURNELL
Orders Branch, Transport, Welsh Government.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru
www.gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE